Y Rhaglen Datblygu Organig: trefnir gan Ganolfan Organig Cymru yn cyflawni ar ran Cyswllt Ffermio

Cyfrif Celloedd a Mastitis

Mae mastitis yn un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu ffermwyr llaeth y Deyrnas Unedig. Dengys ystadegau fod achos cyffredin o fastitis ar fferm gonfensiynol yn costio rhwng £250 a £300 (Dairy Co). Mae hyn yn cynnwys costau triniaeth, cael gwared â llaeth yn ystod triniaeth, gostyngiad yn llaeth a gynhyrchir ac yn ansawdd y llaeth hwnnw, a'r gost bosibl o orfod difa anifeiliaid. Ar fferm organig, byddai'r gost yn uwch gan fod pris llaeth a'r gost o'i gynhyrchu yn uwch, a'r cyfnod tynnu llaeth yn ôl yn hwy.

Mae cyfrif cell somatig (CCS) uchel hefyd yn golygu costau i ffermwyr, a hynny'n amrywio o fferm i fferm ac yn ôl strwythur y cytundeb llaeth. Gall CCS swmp uchel fod yn arwydd o fastitis is-glinigol. Gall arwain at gosbau ariannol, lleihad mewn braster menyn a chynnwys protein, yn ogystal â lleihau faint o laeth a gynhyrchir a chynyddu faint o anifeiliaid sy'n rhaid eu difa. Gan fod cost prynu anifeiliaid newydd yn uchel ar hyn o bryd, byddai prynu gwartheg newydd yn lle'r rhai a heintiwyd yn ddifrifol yn golygu costau uwch.

Wrth ystyried llaeth swmp, dylai'r targed ar gyfer CCS fod yn llai na <150,000/ml, a'r bactosgan yn llai na <20,000/ml. Pan fo'r CCS yn hafal â neu'n rhagor na =>200,000, ac/neu'r bactosgan yn hafal â neu'n rhagor na =>50,000/ml, dylid ceisio cyngor milfeddygol. Ar gyfer achosion mastitis clinigol, y nod yw ceisio cadw nifer yr achosion o dan 25-30 achos ym mhob 100 bob blwyddyn. Pan gyfyd nifer yr achosion i 35-40 achos ym mhob 100, dylid ceisio cyngor milfeddyg. Mae prosesyddion llaeth organig yn gallu dygymod â CCS uwch, a gall hynny beri i gyfartaledd y gyrr gynyddu'n araf bach, ac fe fydd y colledion oherwydd yr achosion is-glinigol yn uwch. (Hovi, 2004).

Prif Bathogenau

Amgylcheddol:

- Eschericia coli
- Streptococcus uberis

Heintus:

- Staphylococcus aureus
- Streptococcus uberis
- Streptococcus agalactiae and dysgalactiae

Yn draddodiadol, pathogenau heintus oedd prif achos mastitis a CCS arbennig o uchel. Ond erbyn hyn, mae gwell trefn a hylendid yn y tŷ godro wedi gostwng canran yr achosion a achosir gan y pathogenau hyn. Bellach, prif achos mastitis clinigol a CCS uchel yw Stroptococcus uberis sy'n bathogen amgylcheddol ond a all, hefyd, fod yn heintus yn y tŷ godro.

Dylai rheoli mastitis fod yn un o'ch nodau beunyddiol ar eich fferm. Dylech gofnodi'r dulliau rheoli yr ydych yn eu defnyddio yn eich cynllun iechyd, fel y cytunwyd â'ch milfeddyg. Dylid cofnodi triniaethau yn eich cofnod triniaethau milfeddygol, a dylech gofnodi a chadw at y cyfnodau diddyfnu oddi wrth y triniaethau hynny.

Dylai cynnyrch meddyginiaethol milfeddygol fod wedi eu hawdurdodi yn unol â deddfwriaeth Ewrop a'r DU, a dylid eu defnyddio dim ond fel y caniateir iddynt gael eu defnyddio o dan y fath ddeddfwriaeth. Ceisiwch air gyda'ch corff rheoli.

Cynllun rheoli 9 pwynt

1. Nodi eich gwartheg CCS uchel
2. Cael gwared ar laeth y gwartheg hynny
3. Canfod a thrin y broblem fastitis
4. Ystyried difa gwartheg sydd â phroblem
5. Rheolaeth gwartheg sych gyda seliwr tethi ar gyfer gwartheg iach
6. Ymarfer therapi gwrthfiotig buwch sych ar wartheg CCS uchel
7. Gwella hylendid a threfn feunyddiol y tŷ godro
8. Gwella hylendid yn y beudy a'r porthiant a roddir i wartheg
9. Profi am yr afiechyd yn eich tŷ godro yn rheolaidd

Awgrymiadau Defnyddiol

- ❖ Gwnewch yn siŵr fod y gwartheg yn sefyll i fyny ar ôl cael eu godro drwy gynnig porthiant ffres, er mwyn sicrhau bod dwythell y deth yn cau'n iawn cyn i'r anifeiliaid orwedd i lawr.
- ❖ Mae'n hanfodol rhoi sylw i'r pethau bychain yn y tŷ godro, a chadw'r lle yn sych, glân, ac wedi ei awyru'n dda.

Ffynonellau Cyfraniadau gan Guy Tomlinson, Grŵp Milfeddygol Daleside, Wrecsam
Hovi (2004) Approaches to mastitis control in well-established organic dairy herds in England and Wales. Traethawd PhD. Prifysgol Reading

Canolfan Organig Cymru · Ffeithlen Rhif G1 - Ebrill 2011
Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru,IBERS, Prifysgol Aberystwyth, Ceredigion SA23 3EB Ffôn: 01970 622248.
Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Canolfan Organig Cymru
Organic Centre Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government